**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scott Waddington
Cadeirydd, Trafnidiaeth Cymru
Pontypridd

2 Ebrill 2025

Annwyl Scott

**Dyraniad Cyllid Pellach Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru 2024/25**

Yn y llythyr cyllido a gyflwynwyd i Trafnidiaeth Cymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, cytunais ar gyfanswm setliad cyllideb i Trafnidiaeth Cymru o £376.08m o refeniw a £181.612m o gyfalaf ar gyfer 2024/25. Cydnabuwyd ar y pryd bod y ffigurau'n cynrychioli llawer o bwysau cyllido yn erbyn y rhagolwg ariannol yn eich Cynllun Busnes 25 blynyddol ac fe wnaethom ymrwymo i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru i fynd i'r afael â hwy a'u lliniaru. Mae'r cyllid ychwanegol a amlinellir isod bellach wedi'i gytuno ac rwy'n disgwyl i chi a'ch bwrdd barhau i gymryd pob cyfle i leihau costau a sicrhau cymaint o refeniw â phosib, yn unol â'r llythyr cylch gwaith dyddiedig 21 Gorffennaf 2023.

Cytunwyd ar newidiadau mewn cyllid refeniw sy'n dod i gyfanswm o gynnydd cyffredinol o £2.0m mewn perthynas â'r canlynol:

| | Dyraniad BEL Refeniw (£m) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llinell gyllidebol | Dyraniad Gwreiddiol | Addasiad IFRS | CVL OMR | Arian Ychwanegol | Incwm DfT | **Cyfan-swm** | Newid |
| TrC - Rheilffyrdd | 364.74 | -66.72 | 18.72 | 27.70 | 22.30 | **366.74** | 2.00 |
| TrC - Uned Ddadansoddol | 1.45 | | | | | **1.45** | – |
| TfW - Cytundeb Cydweithredol | 0.30 | | | | | **0.30** | – |
| Cymorth i Fysiau | 3.28 | | | | | **3.28** | – |
| Cymorth i Fysiau - Grantiau Traws Cymru | 6.00 | | | | | **6.00** | – |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 0.28 | | | | | **0.28** | – |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 0.03 | | | | | **0.03** | – |
| **Cyfanswm** | **376.08** | **-66.72** | **18.72** | **27.70** | **22.30** | **378.08** | **2.00** |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cytunwyd ar newidiadau mewn cyllid cyfalaf sy'n dod i gyfanswm o gynnydd cyffredinol o £359.523m mewn perthynas â'r canlynol:

| | Dyraniad BEL Cyfalaf (£m) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llinell gyllidebol | Dyraniad Gwreiddiol | Addasiad IFRS | CVL OMR | Arian Ychwanegol | **Cyfanswm** | Newid |
| TrC - Rheilffyrdd | 75.217 | 180.509 | 20.280 | 188.433 | **464.439** | 389.222 |
| Cymorth i Fysiau | 41.900 | | | -22.392 | **19.508** | -22.392 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 7.925 | | | -3.506 | **4.419** | -3.506 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol - Grantiau | 50.000 | | | -1.350 | **48.650** | -1.350 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 6.570 | | | -2.452 | **4.118** | -2.452 |
| **Cyfanswm** | **181.612** | **180.509** | **20.280** | **158.734** | **541.134** | **359.523** |

Mae'r cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer rheilffyrdd yn cynnwys £33.9m o'r gwariant a ragwelir ar gyfer CVL a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol nesaf a fydd yn arwain at ostyngiad uniongyrchol mewn costau yn 25-26.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys cyllid a ddarperir trwy gynigion grant unigol na'r broses rheoli newid na ragwelwyd yn y llythyr cylch gwaith blynyddol. Mae'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn a nodir yn y llythyr cyllido cychwynnol yn parhau ac yn berthnasol i unrhyw gyllid ychwanegol. Rhaid ichi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gydnaws â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a'r cytundebau cymwys a gynhwysir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chi i fonitro gwariant a chyllid wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn galluogi Gweinidogion i ystyried unrhyw amrywiadau sy'n dod i'r amlwg mewn trafodaethau rheoli cyllideb rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Cabinet Secretary for North Wales and Transport